# Pwyllgor y Ty

## Cofnodion

### Dyddiad: 12 Hydref 2006
### Amser: 9.00am
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'n bresennol:

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janice Gregory, AC Llafur
Jane Hutt, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru

#### Swyddogion yn bresennol:

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Adrian Crompton, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Catherine Morris, Gweithredwr Seneddol
Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

#### Yn Bresennol:

John Chick, Adnoddau Dynol (ar gyfer eitemau 2.2 a 3.1)
John Grimes, Swyddfa'r Clerc (ar gyfer eitem2.1)

#### Ymddiheuriadau:

William Graham, AC Ceidwadwyr
y Llywydd

| | |
|---|---|
| | **Cyflwyniadau** |
| | |

| | |
|---|---|
| | Croesawodd y Cadeirydd John Chick i'r cyfarfod. |
| | |
| 1 | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r camau sy'n codi ohonynt** |
| | |
| 1.1 | Nododd yr Aelodau y byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2006 yn cael eu cyhoeddi erbyn 9 Tachwedd 2006. |
| | |
| 2 | **Eitemau i'w trafod** |
| 2.1 | Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty 2005-06 HC(2)-10-06(p1) |
| | Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol drafft. Roedd yn cwmpasu prif waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynghyd â chrynodeb o waith a pherfformiad staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.<br><br>Trafododd yr Aelodau'r adroddiad drafft. Gofynnodd Janice Gregory a fyddai'r Aelodau'n cael gweld y rhagair gan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol gerbron y Cynulliad. Er bod rhagair yn eitem bersonol i bob pwrpas ac nad yw'n arferol gwneud hyn, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n sicrhau bod Aelodau'n cael gweld ei ragair cyn iddo gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad a thybiodd y byddai'r Dirprwy Lywydd yn gwneud hynny hefyd.<br><br>Cyfeiriodd Janice Gregory at 'Highlights of the Year: April 2005 – March 2006' ar dudalen 8 yr adroddiad Saesneg. Dylid dileu'r gair 'by' o'r llinell gyntaf ac o dan y pennawd 'Opening of the Senedd' nododd y dylid cynnwys y gair 'the' yn y llinell gyntaf cyn y gair 'Assembly'.<br><br>Cyfeiriodd Janice Gregory hefyd at y pennawd 'Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin De Cymru' ar dudalen 33 o dan 'Busnes y Cynulliad 2005-2006'. Nododd fod yr ail baragraff yn cyfeirio at ethol Janet Davies fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn ym mis Mai 2005. Trafododd yr Aelodau yn fyr a ddylid cynnwys gwybodaeth am ethol Cadeiryddion yn yr adroddiad ar gyfer yr holl Bwyllgorau.<br><br>Cytunodd yr Aelodau y dylid enwi Cadeirydd pob Pwyllgor yn yr adroddiad.<br><br>Cam i'w gymryd: Clerc y Pwyllgor<br><br>Trafododd yr Aelodau'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 ar dudalen 45 ar gyfer 'Aelodaeth, Ffigurau Presenoldeb ac Ystadegau'r Pwyllgorau'. |

| | |
|---|---|
| | Cytunodd yr Aelodau y dylid dileu cyfeiriadau at bresenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd Pwyllgor yn ôl canran o'r adroddiad.<br><br>Cam i'w gymryd: Clerc y Pwyllgor<br><br>Dywedodd Clerc y Cynulliad y dylid newid y cyfeiriad at 'Assembly First Secretary' yn Atodiad 2, tudalen 58 i 'First Minister' yn yr adroddiad Saesneg. Mae'r adroddiad Cymraeg yn gywir.<br><br>Cam i'w gymryd: Clerc y Pwyllgor<br><br>Cytunodd Pwyllgor y Ty i gymeradwyo'r adroddiad ac y dylid ei gyflwyno gerbron y Cynulliad yn unol â Rheolau Sefydlog.<br><br>Cam i'w gymryd: Clerc y Pwyllgor |
| 2.2 | Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb 2005-06 HC(2)-10-06(p2) |
| | Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb ar gyfer 2005-06 i'r Pwyllgor.<br><br>Cytunodd yr Aelodau fod y Cynulliad wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal yng ngwaith Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Mynegodd Clerc y Cynulliad ei ddiolch i Denise Rogers am ei holl waith caled.<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a gafodd ei ystyried gan y pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 25 Hydref 2006. |
| 3 | **Eitemau i'w nodi** |
| 3.1 | Deddfwriaeth Gwahaniaethu ar Sail Oedran HC(2)-10-06(p3)<br><br>Nododd Pwyllgor y Ty ofynion Deddf Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006 a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006.<br><br>Unrhyw Fater Arall<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi. |
| 4 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9 Tachwedd 2006** |

| | |
|---|---|
| | Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |